



Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth/ Mabwysiadu Ychwanegol ac Absenoldeb a Chyflog Rhiant a Rennir

Ar hyn o bryd, caiff hawliadau swyddogion i absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu ychwanegol yn amodol ar ofynion cymhwysra eu datgan gan reoliadau a dyfarniadau'r heddlu. Roeddynt yn seiliedig ar ddarpariaethau statudol absenoldeb tadolaeth ychwanegol. Roedd gan aelodau ar absenoldeb cefnogi mamolaeth neu fabwysiadu ychwanegol hefyd hawl i dâl tadolaeth statudol ychwanegol yn amodol ar ofynion cymhwysra.

Yn dilyn cyhoeddi Deddf Plant a Theuluoedd 2014 cafodd absenoldeb a thâl tadolaeth statudol ei ddisodli gan Absenoldeb a Chyflog Rhiant a Rennir. Mae Cylchlythyr PNB 21/2014 a chylchlythyr

Swyddfa Gartref 11/2015 yn datgan y cytundeb i ddarparu'r hawl i swyddogion rannu absenoldeb rhiant. Bydd diwygio rheoliadau a dyfarniadau'r heddlu yn ofynnol oherwydd hyn. Mae gan swyddogion eisoes yr hawl i dderbyn tâl statudol absenoldeb rhieni a rennir yn amodol ar ofynion cymhwysra.

Mae HOC 11/2015 yn datgan bod y Swyddfa Gartref yn bwriadu newid rheoliadau a dyfarniadau heddlu i ddarparu ar gyfer absenoldeb rhiant a rennir ond yn y cyfamser anogir heddluoedd i weithredu darpariaethau statudol absenoldeb rhiant a rennir.

Beth ydy absenoldeb rhiant a rennir?

Mae absenoldeb rhiant a rennir yn caniatáu i rieni rannu absenoldeb a thâl statudol yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn genedigaeth y plentyn neu fabwysiadu plentyn. Gall rhieni ddewis sut y maent yn dosrannu'r absenoldeb rhiant a rennir ac os ydynt eisiau cymryd yr absenoldeb ar wahân neu gyda'i gilydd.

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i swyddog yr heddlu rannu cyfrifoldeb am y plentyn gydag un o'r canlynol:

- ei ŵr/ei gŵr, gwraig, partner sifil neu gyd-fabwysiadwr/wraig
- rhiant arall y plentyn
- ei bartner/ei phartner (os ydynt yn byw gyda'r swyddog heddlu a'r plentyn)

Mae absenoldeb a chyflog rhiant a rennir ar gael hefyd i rieni arfaethedig mewn trefniant benthyc croth a darpar rieni yn y system maethu i fabwysiadu.

Ceir mwy o fanylion am y darpariaethau statudol ar <https://www.gov.uk/shared-parental-leave-and-pay/overview>

Bydd pamffled gynghori ar wahân yn cael ei chynhyrchu pan fydd y diwygiadau wedi eu gwneud



Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth a Mabwysiadu

Cyngor i Dadau a Phartneriaid

Mae'r bamffled hon yn datgan hawliau swyddogion heddlu sydd, yn achos Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth, naill ai'n dad i blentyn, partner i fam feichiog neu ofalydd enwebedig mam feichiog ac yn achos Absenoldeb Cefnogi Mabwysiadu, yn ail riant mewn cwpwl sy'n mabwysiadu'r plentyn.

Beth ydy Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth neu Fabwysiadu?

Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth neu Fabwysiadu ydy absenoldeb y gellir ei drefnu tuag amser yr enedigaeth neu'r mabwysiadu er mwyn gofalu am y plentyn a/neu gefnogi mam y plentyn neu'r prif fabwysiadwr/wraig i ofalu am y plentyn.

Faint o absenoldeb sydd gen i hawl iddo?

Mae gennych hawl i ddwy wythnos o absenoldeb tuag amser yr enedigaeth neu'r mabwysiadu. Does dim gofynion gwasanaeth ar gyfer Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth neu Fabwysiadu. Does dim rhaid cymryd y ddwy wythnos gyda'i gilydd. Gellir cymryd pob cyfnod o wythnos ar wahân.

Faint o gyflog sydd gen i hawl iddo?

Byddwch yn derbyn eich cyfradd normal o gyflog am wythnos gyntaf yr Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth neu Fabwysiadu, wedi'i wrthbwyso gan gyfradd tadolaeth statudol ar gyfer yr wythnos honno. Os ydych yn gweithio'n rhan amser, bydd eich cyflog yn cael ei gyfrif drwy gyfeirio i'ch ffactor priodol. Os oes gennych 26 wythnos o wasanaeth di-dor ar ddiwedd y bymthegfed wythnos cyn wythnos ddisgwylidig y geni, neu'r wythnos pan gaiff y prif fabwysiadwr/wraig eu paru gyda phlentyn ar gyfer mabwysiadu, bydd gennych hawl i gael tâl ar raddfa tadolaeth statudol am yr ail wythnos.



Anghenion dyletswydd

Mae caniatáu Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth neu Fabwysiadu yn ddibynnol ar anghenion dyletswydd.

Galw'n ôl i ddyletswydd

Gallwch gael eich galw'n ôl i ddyletswydd ar unrhyw adeg ond dylai hyn fod am resymau eithriadol yn unig megis mynychu llys neu wrandawriad disgyblu. Mae mynychu llys fel tyst yr heddlu yn cael ei drin fel amser dyletswydd a byddwch yn derbyn cyfradd dyddiol o'ch cyflog am bob diwrnod ar ddyletswydd ond yn colli tâl tadolaeth statudol am yr wythnos honno.

Mae rheoliadau a dyfarniadau'r Heddlu yn fud ynghylch beth ddylai ddiwydd i'r Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth neu Fabwysiadu os byddwch yn cael eich galw'n ôl i ddyletswydd. Barn PFEW yw y dylid ymestyn y cyfnod absenoldeb neu ei ailbennu o ganlyniad.

Gwasanaeth cyfrifadwy

Mae pob absenoldeb â thâl a gymerir fel Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth neu Fabwysiadu yn cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy, yn gyfrifadwy ar gyfer cyflog cynyddrannol a dibenion absenoldeb ac ar gyfer cynhwysiad mewn unrhyw gyfnod prawf.

Yn unol â Chynllun Pensiwn yr Heddlu 2015 gall aelodau brynu amser a dreuliwyd ar absenoldeb teulu di-dâl yn ôl at ddibenion pensiwn. Mae hyn yn cynnwys Absenoldeb Cefnogi Mamolaeth neu Absenoldeb Cefnogi Mabwysiadu di-dâl. Fodd bynnag, ni ellir prynu absenoldeb teulu di-dâl yn ôl yn unol â Chynllun Pensiwn yr Heddlu 1987 a Chynllun Newydd Pensiwn yr Heddlu 2006. Gofynnwyd i'r Swyddfa Gartref roi sylw i'r anghysondeb hwn.